*Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar Reoli Ynni'r GIG: Adroddiad Pwyllgor (2)07-06*

Mae LlCC yn ddiolchgar am yr adroddiad hwn. Rydym yn falch o gael y darganfyddion a hoffem roi'r ymateb hwn i'r argymhellion sydd ynddo.

**i. Argymhelliad**

**Mae'n rhy gynnar amcangyfrif llwyddiant y strategaeth brynu newydd a fabwysiadwyd gan Gyflenwadau Iechyd Cymru, ar ran ymddiriedolaethau'r GIG, am ei chontractau nwy a thrydan galw uchel.**

**Rydym yn argymell bod Cyflenwadau Iechyd Cymru yn cynnal gwerthusiad llawn o effeithiolrwydd y strategaeth brynu newydd ar gyfer cyflenwadau nwy a thrydan galw uchel ar ôl dwy flynedd gyntaf y contractau pum mlynedd newydd hyn. Dylai'r gwerthusiad adeiladu ar waith grŵp rheoli risg prisiau ynni'r GIG, ac fel rhan o'r gwerthusiad, byddem yn disgwyl i Gyflenwadau Iechyd Cymru:**

**a) cymharu'r prisiau a gyflawnwyd gan y dull prynu hyblyg â'r prisiau a fyddai wedi'u cyflawni o dan y dull pris sefydlog blynyddol blaenorol;**

**Derbyniwyd:**

Mae'r strategaeth bresennol wedi'i seilio ar wahanol feini prawf, ynghylch gwneud penderfyniadau, i'r rhai hynny a fyddai wedi cael eu sefydlu pe byddai Cyflenwadau Iechyd Cymru wedi parhau i brynu cyfrannau ynni am chwe neu ddeuddeng mis. Cafodd ei mabwysiadu er mwyn lleihau'r perygl i Cyflenwadau Iechyd Cymru orfod talu prisiau uwch dros gyfnod hirach. Ni ellir dweud i sicrwydd pryd yn union y byddai pryniant wedi digwydd. At ddibenion cymharu mae modd dewis adegau penodol mewn amser pryd y gallai'r pryniannau fod wedi digwydd a chymharu'r prisiau a dalwyd dros y 6 a 12 mis nesaf pe byddai'r ddwy strategaeth wedi'u mabwysiadu. Efallai y bydd unrhyw gymariaethau o'r fath, mewn gwirionedd, yn hollol wahanol i'r pris y byddai Cyflenwadau Iechyd Cymru wedi'i dalu yn y pen draw pe byddent wedi dal i ddefnyddio dull pris sefydlog; mae e'n angenrheidiol er mwyn gwerthuso pa mor effeithiol yw'r strategaeth newydd.

**b) cymharu dulliau a chanlyniadau â rhai prynwyr ynni mawr;**

**Derbyniwyd:**

Mae Cyflenwadau Iechyd Cymru yn gyfarwydd â'r dull ymdrin a defnyddir gan brynwyr ynni mawr eraill a'r canlyniadau a gyflawnwyd ganddynt. Yn benodol, fe gasglwyd gwybodaeth am y dull ymdrin a fabwysiadwyd gan yr Asiantaeth Brynu a Chyflenwi yn Lloegr, Cadwynau Gwestai a Manwerthu a'r sefydliadau yn y diwydiannau gweithgynhyrchu a'r diwydiannau trwm. Bydd y cymariaethau hyn yn parhau i gael eu gwneud.

c) **ceisio adborth gan ymddiriedolaethau ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan gyflenwyr o dan y contractau newydd, yn arbennig o ran cywirdeb bilio, ac ar sail y canfyddiadau hyn, ystyried a fyddai'n werth cynnal arfer archwilio biliau systematig ar draws y gwasanaeth;**

**Derbyniwyd:**

Mae Cyflenwadau Iechyd Cymru eisoes yn cynnal arolygon ar ei gwsmeriaid ynghylch amrywiaeth eang o faterion gwasanaeth ac efallai y caiff arolwg mwy pendant ei gynnal, sy'n ymwneud â grŵp penodol o randdeiliaid. Yn ôl yr adborth a gefais eisoes mae'r bodlonrwydd ar rai o'r darparwyr gwasanaeth yn amrywio; mae'r mater hwnnw'n cael ei drin a'i drafod trwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r cyflenwyr allweddol. Mewn perthynas â manwl gywirdeb y biliau, mae mwyafrif helaeth yr anghywirdebau yn ymwneud ag amcangyfrifon darllen mesuryddion yn hytrach na thrwy ddefnyddio'r tariffau anghywir. Gellir gostwng hyn yn sylweddol trwy ddefnyddio dulliau darllen mesuryddion awtomatig. Bydd hapsampl o filiau'n cael ei gwireddu, yn rheolaidd, gan Cyflenwadau Iechyd Cymru, ar y cyd â'r Ymddiriedolaethau, yn rheolaidd.

d) **defnyddio profiad contractwr y sector preifat sy'n gyfrifol am y broses gaffael ynni ar gyfer Ysbyty'r Tywysog Siarl (Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg) sy'n ymddangos, o leiaf yn y tymor byr, fel pe bai wedi sicrhau prisiau mwy cystadleuol na phrisiau Cyflenwadau Iechyd Cymru; ac**

**Derbyniwyd:**

Mae Cyflenwadau Iechyd Cymru yn cydnabod mai da o beth, bob amser, yw rhannu gwybodaeth â sefydliadau eraill. Am gyfnod o chwe mis y mae'r prisiau Dalkia a gynigiwyd i Ogledd Morgannwg. Oherwydd bod Cyflenwadau Iechyd Cymru yn gallu prynu'n hyblyg mae ef wedi bod mewn lle da i fonitro'r gostyngiad parhaol ym mhrisiau'r farchnad cyn cloi'r rhain; felly, yn y pen draw, maent yn fwy tebygol o gymharu'n ffafriol â'r rhai sydd ar gael gan Dalkia. Bydd Cyflenwadau Iechyd Cymru yn monitro'r prisiau sydd wedi cael eu sicrhau trwy gyfrwng y mecanwaith hwn, at ddibenion cymharu.

e) **adrodd ar ganfyddiadau'r gwaith hwn i uwch reolwyr ar draws ymddiriedolaethau'r GIG y maent yn eu gwasanaethu.**

**Derbyniwyd:**

Cafwyd gwybodaeth o'r math yma ei rhannu gyda'r Ymddiriedolaethau trwy sawl dull a modd. Bydd y Grŵp Rheoli Risg Prisiau Ynni, y Grŵp Caffael a'r Cyfarwyddwyr Cyllid yn cael eu briffio'n rheolaidd. Caiff pob un o'r Ymddiriedolaethau GIG eu cynrychioli ar y grwpiau hyn gan uwch reolwyr. Ar ben hynny bydd Fforwm Amgylcheddol Iechyd Cymru, ac yn fwy penodol ei is-grŵp sy'n ymdrin â Rheoli Ynni, yn cyfarfod bob chwarter er mwyn rhannu arferion gorau a gwybodaeth am bynciau o'r fath.

**ii.** ***Argymhelliad***

**Mae'r broses gaffael ynni'n amlwg yn gymhleth ac mae angen gwybodaeth ac arbenigedd yn y maes hwn, yn arbennig yn ystod adegau lle mae prisiau marchnadoedd yn gyfnewidiol.**
**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy ei thîm Gwerth Cymru, sicrhau bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn gallu cael mynediad i'r arbenigedd angenrheidiol i reoli'r risgiau sydd ynghlwm wrth gaffael ynni yn effeithiol, a bod y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn prynu cyflenwadau ynni yn ddigon hyblyg i roi rhywfaint o ddiogelwch rhag uchafbwyntiau ym mhrisiau'r farchnad.**

**Derbyniwyd:**

Cylch gwaith Gwerth Cymru yw bod yn symbylydd er mwyn galluogi sector cyhoeddus Cymru i sicrhau arbedion mewn effeithlonrwydd; ar yr un pryd mae gofyn iddo ategu egwyddorion datblygu cynaliadwy. Nid yw Gwerth Cymru yn cyflogi staff caffael ynni arbenigol, fodd bynnag, gall Gwerth Cymru annog sefydliadau i fanteisio ar arbenigedd a gall fod yn fodd i rannu arferion gorau. Yn 2004, fe sefydlodd Fforwm Ynni Cymru Gyfan er mwyn cydlynu a chynorthwyo i sicrhau y ceid gwelliannau ac effeithlonrwydd, a oedd yn werth yr arian, ym maes caffael ynni. Y nod drwyddo draw yw sicrhau sylfaen ar gyfer rhannu arferion gorau ynghylch pob agwedd ar gyfleustodau ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys:

- Rheoli/lleihau ynni
- Ynni cynaliadwy ac adnewyddadwy
- Masnachol a chaffael.

Mae'r Fforwm hwn wrthi'n llunio strategaeth ar gyfer gwaith y dyfodol, a fydd yn cynnwys y posibilrwydd o gydweithio er mwyn manteisio ar arbenigedd.

Mae nifer o sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cydweithio'n barod. Y farn gyffredin yw dylid adolygu'r dull tendr traddodiadol a dilyn dull ymdrin mwy hyblyg yn lle hynny. Y nod yw bodloni'r farchnad gyfnewidiol bresennol a manteisio ar gyfleoedd tymhorol a chyfleoedd prisio eraill. Dyma'r cydweithio ffurfiol sydd ar fynd eisoes ym maes caffael:

- Ymddiriedolaethau Iechyd – Cyflenwadau Iechyd Cymru / Ystadau

Iechyd Cymru

- Llywodraeth Leol
    - De-ddwyrain Cymru – Consortiwm Pryniant Cymru (12 aelod – yn cydweithio gydag atebion prynu OGC))
    - De-orllewin Cymru – Trefniad cydweithio
    - Gogledd Cymru – Trefniad cydweithio gydag atebion prynu OGC
- Addysg Bellach - cysylltiadau ag awdurdodau lleol
- Addysg Uwch – Y Consortiwm Ynni (TEC)

Mae rhai sefydliadau hefyd yn defnyddio arbenigwyr annibynnol i roi cyngor.

Mae arbenigedd mewn effeithlonrwydd ynni cyn bwysiced ag arbenigedd mewn caffael ynni. Mae rhaglen Caffael Cynaliadwy Gwerth Cymru yn ymgysylltu â gwaith parhaol y sefydliadau fel yr Ymddiriedolaeth Carbon ac Envirowise sydd ag elfen sector cyhoeddus i'w gwaith. Eu nod yw lleihau'r defnydd a wneir o ynni.

O'r herwydd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad, sef adolygu'r mynediad at arbenigedd; nid yw'n derbyn yr argymhelliad ar gyfer strategaethau caffael ynni manylach ar gyfer pob sefydliad. Yn ei barn hi mae hybu cydweithio a mynediad at arferion gorau a rhannu arbenigedd yn cynnig ateb mwy effeithiol.

**iii.** ***Argymhelliad***

**Dim ond ychydig o gynnydd a wnaed gan ymddiriedolaethau GIG tuag at gyrraedd targedau defnyddio ynni ac effeithlonrwydd ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac nid yw'n sicr pa mor briodol yw rhai o'r targedau a'r ffordd y cânt eu mesur.**

**Dylai Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Ystadau Iechyd Cymru ailystyried targedau ynni'r GIG yng Nghymru yn gyfochrog â diwygio Cod Ynni'r DU cyfan ar gyfer adeiladau'r GIG. Yn arbennig:**

**a) dylent fesur perfformiad effeithlonrwydd ynni yn seiliedig ar ddefnydd yn ôl arwynebedd llawr yn hytrach nag yn ôl cyfaint wedi'i wresogi;**

**Derbyniwyd:**

Mae'r mesur effeithlonrwydd ynni a seiliwyd ar gyfaint poeth wedi cael ei ddefnyddio yn y GIG ledled y DU am flynyddoedd lawer. Rhoddwyd cychwyn ar y mesur oherwydd y bernid ei fod yn mesur effeithlonrwydd ynni mewn modd mwy priodol na'r hwnnw a seiliwyd ar arwynebedd llawr; y rheswm dros hyn yw ei fod yn cydnabod, yn y bôn, y gwahanol swyddogaeth sydd i adeiladau y darperir gofal iechyd ynddynt. Nid yw chwaith yn cosbi'r cyrff GIG hynny sy'n gweithredu mewn canolfannau hŷn eu hadnoddau (h.y. â nenfydau uchel).

Cydnabyddir fodd bynnag y bu tuedd gynyddol ledled gwahanol sectorau, yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, am geisio mynegi mesurau effeithlonrwydd ynni mewn perthynas â'r arwynebedd llawr. Dylid nodi hefyd bod y gwaith moderneiddio ystâd gofal iechyd sy'n mynd rhagddo, wedi disodli llawer o'r hen eiddo sydd ag adeiladau ag uchderau safonol o'r llawr i'r nenfwd.

Fe gynigir felly y dylid rhoi cychwyn ar ddangosydd perfformiad effeithlonrwydd ynni newydd wedi'i seilio ar arwynebedd llawr. Serch hynny ni chaiff ei gyflwyno tan 2008 pan fydd targed presennol y Cynulliad ar gyfer effeithlonrwydd ynni, ar sail y cyfaint poeth, yn dod i ben. Bydd y cyfnod arwain hwn hefyd yn caniatáu amser digonol i gytuno ar ddangosyddion perfformiad newydd gyda chydweithwyr yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (er mwyn sicrhau cysondeb yr adroddiadau ledled y GIG) a newid y systemau rheoli perfformiad canolog yn gyfatebol i hynny.

**b) ni ddylent gyfrif gostyngiadau mewn gollyngiadau carbon deuocsid yn sgil caffael trydan gwyrdd tuag at y targed ar gyfer y defnydd sylfaenol o ynni, gan fod hyn yn lleihau'r cymhelliant i gyflawni gostyngiadau gwirioneddol mewn defnydd;**

**Derbyniwyd yn Rhannol**

Nid yw'r targed cenedlaethol, sef gostwng 15% ar y prif ynni (neu ollyngiadau carbon deuocsid) rhwng 2000 a 2010 yn ddangosydd perfformiad effeithlonrwydd ynni; yn hytrach targed ydyw a sefydlwyd i gynorthwyo i ostwng y nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu cynhyrchu. Wrth gwrs mae perthynas yn bodoli rhwng effeithlonrwydd ynni lleol a chynhyrchu carbon deuocsid; fodd bynnag mae'n bwysig cydnabod y dylai targed sy'n ceisio gostwng y gollyngiadau absoliwt ledled y GIG, ystyried pob un o'r dulliau y gellid eu defnyddio i gyflawni hyn. Mae hyn yn cynnwys prynu trydan gwyrdd. Yn wir fe nodir bod defnyddio ynni gwyrdd yn cael ei hybu, yn weithredol, gan y cam gweithredu cyntaf (yn rhestr y deg cam gweithredu pwysicaf) yng Nghynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad.

Cynigir felly y dylai'r GIG barhau i roi gwybod am ostyngiadau mewn carbon deuocsid absoliwt gan gynnwys yr hyn sy'n digwydd o ganlyniad i ddefnyddio trydan gwyrdd. Yn benodol dylai ddweud pa mor arwyddocaol fu hynny a pha gyfraniad a wnaeth at yr arbedion at ei gilydd, a pharhau, ar yr un pryd, i hybu ac edrych yn fanwl ar ddulliau o leihau'r defnydd a wneir o ynni

**c) dylent ddatblygu targedau newydd ar gyfer gollyngiadau carbon deuocsid, cynhyrchu ynni ar y safle drwy ddefnyddio ffynonellau gwres a phŵer cyfun ac ynni adnewyddadwy, a chaffael trydan gwyrdd gan ffynonellau allanol.**

**Derbyniwyd:**

Mewn perthynas â thargedau a ddisgrifir yng Nghynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad ar y cyd â'r targedau, ar gyfer y sector cyhoeddus, sydd i'w gweld yn

strategaeth datblygu cynaliadwy Llywodraeth y DU, *"Securing the Future"*, dylid eu datblygu yn set newydd o dargedau ar gyfer carbon. Y nod yw hybu'r defnydd a wneir o ynni adnewyddadwy a CHP.

**iv.** ***Argymhelliad***

**Mae datblygu pecyn offer ymgyrch ynni, yn dilyn ymgyrch beilot yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru, yn enghraifft dda o sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a rhannu arfer da, sy'n gyson ag amcanion strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef *Creu'r Cysylltiadau*.**
**Yn dilyn gwerthusiad mwy ffurfiol gan Ystadau Iechyd Cymru, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru nodi'r gwersi a ddysgwyd o'r ymgyrch ymwybyddiaeth ynni yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru a rhannu'r rhain â chyrff eraill y sector cyhoeddus i'w helpu i gynnwys staff yn eu hymdrechion i leihau faint o ynni a ddefnyddir.**

**Derbyniwyd:**

Cytunir mai ymwybyddiaeth o ynni yw un o elfennau creiddiol gwella effeithlonrwydd ynni. Felly bydd y Cynulliad yn ceisio hybu'r ymgyrch ragbrofi yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru a dangos beth yw ei manteision i gyrff eraill y sector cyhoeddus.

**v.** ***Argymhelliad***

**Disgwylir y bydd dyrannu £3.5 miliwn o Raglen Buddsoddi Cyfalaf y GIG i ariannu mesurau arbed ynni, ynghyd â datblygiadau parhaus eraill ar draws y gwasanaeth, yn arwain at welliannau sylweddol mewn perfformiad ynni.**
**Rydym yn argymell bod Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn unol ag Ystadau Iechyd Cymru, yn sefydlu systemau clir i fonitro a gwerthuso effaith yr arian a ddarperir ar gyfer mesurau arbed ynni fel rhan o Raglen Buddsoddi Cyfalaf y GIG. Wrth wneud hyn, dylai'r Adran fesur y graddau y cafodd manteision arfaethedig y buddsoddiad hwn eu gwireddu neu, o bosibl y graddau y rhagorwyd arnynt, gyda'r bwriad o lywio'r achos busnes er mwyn sicrhau mwy o arian yn y dyfodol. Dylai'r Adran hefyd sicrhau y gall ymddiriedolaethau ddangos gwelliannau pendant yn eu trefniadau rheoli ynni ehangach, yn unol â'r ymrwymiadau yr oedd yn ofynnol iddynt eu gwneud er mwyn sicrhau'r arian hwn ac mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad.**

**Derbyniwyd:**

Fe fydd canlyniad y dosbarthiad cyllid ar gyfer cynilion egni, a'r gwelliant

mewn rheolaeth egni cyffredinol, yn cael ei arolygu'n ofalus er mwyn gwerthuso'r fuddiannau. Mewn perthynas â dyrannu cronfeydd, cafodd yr amodau eu gwneud yn llym a phendant dros ben, ac mae meysydd ad-dalu, arbedion carbon ac arbedion costau i gyd wedi cael eu cynnwys mewn cynlluniau gostwng gollyngiadau ynni.